**CWESTIYNAU CYFFREDIN**

Arolwg DU cyfan yn archwilio effaith canser pobl ifanc ar les, ansawdd bywyd ac anghenion unigolion sydd wedi cael diagnosis, a'u rhieni/gofalwyr a brodyr a chwiorydd.

Mae Young Lives vs Cancer, Teenage Cancer Trust, Children's Cancer and Leukemia Group, ac Ellen MacArthur Cancer Trust wedi lansio'r arolwg hwn gyda'i gilydd, gan weithio gyda Dartington Service Design Lab.

Mae'r cwestiynau arolwg hyn yn casglu gwybodaeth am eich lles, ansawdd bywyd ac anghenion cyfredol. Rydym hefyd yn casglu manylion demograffig perthnasol i ddarparu mewnwelediad i'r grwpiau a'r cymunedau y mae canser yn effeithio arnynt.

**Pwrpas y ddogfen hon yw sicrhau bod darpar gyfranogwyr yn deall y prif bwyntiau am gymryd rhan yn yr ymchwil hwn a sut i gwblhau'r arolwg.**

Mae nodau'r prosiect ymchwil, a'r dull gweithredu wedi'u hadolygu a'u cymeradwyo gan Gadeirydd Pwyllgor Moeseg y Ganolfan Polisi Cymdeithasol, Roger Bullock. Mae'r prosesau sy'n rhan o'r ymchwil ar gyfer casglu data, yn ogystal â storio, defnydd dileu data personol wedi'u hadolygu gan y Rheolwr Diogelu Data yn Young Lives vs Cancer a Mark Burnett (cynghorydd diogelu data Hope & May).

Y sail gyfreithlon ar gyfer casglu data at ddiben yr arolwg yw oherwydd ei bod yn angenrheidiol at ddibenion ein Buddiannau cyfreithlon i gefnogi ymchwil, mewnwelediad a datblygiad gwasanaethau a darpariaeth gan Young Lives vs Cancer a phartneriaid prosiect. Yr amod ar gyfer prosesu data categori arbennig, lle bo'n berthnasol, yw oherwydd ei fod yn angenrheidiol at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol er budd y cyhoedd. Byddwn yn dibynnu ar 'ddarpariaethau ymchwil' Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (UK GDPR) wrth ddefnyddio data personol. Os oes gennych gwestiynau yn ymwneud â'r arolwg, cysylltwch ag arweinydd y prosiect, Nate Sheach, drwy e-bost: **Nathan.sheach@dartington.org.uk**.

**Beth yw pwrpas y prosiect ymchwil hwn?**

Mae Young Lives vs Cancer a Dartington Service Design Lab yn gweithio mewn partneriaeth i gynnal ymchwil i ddeall yn well brofiadau pobl yr effeithir arnynt gan ganser hyd at 10 mlynedd ar ôl diwedd triniaeth canser.

Dylai ymatebwyr fod dros 14 oed ac yn byw yn y DU. Y grwpiau y mae gennym ddiddordeb mewn clywed oddi wrthynt yw:

1. **Pobl sydd wedi cael diagnosis o ganser ar unrhyw adeg cyn eu bod yn 25 oed ac sydd wedi cael triniaeth canser yn y 10 mlynedd diwethaf.**
2. **Rhieni, gofalwyr neu frodyr a chwiorydd person a gafodd ddiagnosis o ganser cyn ei fod yn 25 oed ac sydd wedi cael triniaeth canser yn y 10 mlynedd diwethaf.**

Nod yr ymchwil yw deall effeithiau hirdymor canser pobl ifanc ar les, ansawdd bywyd ac anghenion ar draws gwahanol boblogaethau ac ar wahanol adegau y tu hwnt i ddiagnosis. Bydd yr ymchwil yn helpu i wella gofal canser pobl ifanc yn y dyfodol.

**Beth fydd yn rhaid i mi ei wneud mewn termau ymarferol wrth gymryd rhan yn yr ymchwil hwn?**

Bydd yr ymchwil yn cynnwys cwblhau'r arolwg o gyfrifiadur neu ddyfais symudol, mewn amgylchedd lle mae gennych breifatrwydd i ymateb i'r gwahanol feysydd cwestiwn.

Mae chwe adran i'r arolwg: cwestiynau sgrinio sy'n ymwneud â diagnosis, lles presennol, ansawdd bywyd presennol, anghenion presennol, cymorth a ddarperir yn ystod triniaeth a chwestiynau demograffig amdanoch chi.

Mae gennych yr opsiwn drwyddo draw i ddewis yr opsiwn "gwell gennyf beidio â dweud" neu adael eitemau'n wag os nad ydych yn gyfforddus yn ymateb i gwestiynau.

Mae'r arolwg yn cymryd tua 15 munud i'w gwblhau. Gan fod yr arolwg yn cael ei gwblhau'n ddienw, nid oes angen mewngofnodi. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi allu cwblhau eich ymateb mewn un sesiwn.

Bydd taleb One4all fel iawndal ar gael i'r 500 o ymatebwyr cyntaf am gymryd rhan yn yr arolwg, ac mae gwybodaeth am sut i wneud cais amdani ar gael o fewn dolen yr arolwg.

**Beth yw fy hawliau os byddaf yn cymryd rhan?**

Chi sydd i benderfynu a ydych yn cymryd rhan ai peidio. Gallwch ddweud ie neu na ar ddechrau'r arolwg heb ypsetio pobl a heb unrhyw effaith arnoch chi neu bobl rydych yn eu hadnabod, neu'r gwasanaethau a ddarperir i chi.

Mae gwybodaeth am sut y byddwn yn prosesu eich data personol, gan gynnwys eich hawliau diogelu data wedi'i chynnwys yn hysbysiad preifatrwydd ein harolwg.

Mae gennych hawl i benderfynu faint rydych yn ei rannu ym mhob adran o'r arolwg ar ôl cael crynodeb o themâu'r adran sy'n cael ei harchwilio, gan gynnwys y dewis i beidio ag ymateb.

**Os oes angen cymorth, arweiniad neu unrhyw gyngor uniongyrchol arall arnoch am eich canser neu rywun y mae gennych gyfrifoldebau gofalu amdano - siaradwch yn uniongyrchol â Young Lives vs Cancer:**

- **Ffôn**: 0300 303 5220 (Dydd Llun i ddydd Gwener, 09.00 i 17.00)
- **E-bost: GetSupport@younglivesvscancer.org.uk**
- **Gallwch hefyd gael cyngor ar-lein drwy: www.younglivesvscancer.org.uk/contact-us/**

**Sut bydd fy 'data' neu wybodaeth yn cael ei gasglu, ei rannu neu ei ddefnyddio?**

Bydd data arolwg yn cael ei gasglu gan ddefnyddio platfform ar-lein o'r enw Qualtrics. Mae data'n cael ei gasglu a'i storio i gydymffurfio â GDPR a bydd dim ond ar gael i'r tîm ymchwil Dartington Service Design Lab a staff ymchwil Young Lives vs Cancer, sydd â chytundeb rhannu data.

Bydd storio a dadansoddi data at ddibenion yr ymchwil wedyn yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu adroddiad i'r cyhoedd ac adroddiadau ar gyfer yr elusennau sy'n cefnogi plant a phobl ifanc gyda chanser i'w helpu i wella gwasanaethau a phennu strategaeth ar gyfer y dyfodol.

**Beth fydd pwrpas prosesu fy nata / gwybodaeth?**

- Ar gyfer recriwtio unigolion i gymryd rhan yn yr ymchwil.
- I weinyddu'r arolwg.
- Casglu gwybodaeth gan gyfranogwyr yn unol ag amcanion a dulliau'r ymchwil.

Diolch i chi am ystyried cymryd rhan yn y prosiect hwn, rydym yn gwerthfawrogi eich amser a'ch ymdrech i ymateb a'r mewnwelediadau y gallwch eu cynnig.

Gan ein bod yn anelu at gyrraedd ystod eang o'r rhai y mae canser yn effeithio arnynt ledled y DU, byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu rhannu'r arolwg ag eraill a allai fodloni'r meini prawf recriwtio. Gall hyn fod yn rhai eraill o fewn eich cartref eich hun, neu'r rhai o fewn cymuned neu rwydwaith ehangach yr ydych eisoes yn rhan ohono.

Os byddwch yn dewis cymryd rhan yn yr ymchwil, ewch i'r arolwg gan ddefnyddio'r ddolen isod:

- bit.ly/cancer-needs-survey
- Bydd y ddolen hon ar gael o 20 Medi 2023. Bydd data o'r arolwg yn cael ei gadw am chwe blynedd ar ôl i'r arolwg ddod i ben.